

Mae'r tîm cynllun gweithlu nyrsio yn eich croesawu i rifyn hydref 2023 o'n cylchlythyr. Mae'n dod â'r diweddariadau diweddaraf i chi ar ddatblygu cynllun gweithlu strategol ar gyfer nyrsio yng Nghymru.

Gwella Cadw Staff Gyda'n Gilydd

Cynllun Cadw Nyrsys AaGIC


Ar 25 Medi 2023, lansiodd AaGIC y Cynllun Cadw Nyrsys, a ddatblygwyd gyda chydweithwyr nyrsio a gweithlu ledled Cymru. Digwyddodd hyn trwy Microsoft Teams gyda Phrif Swyddog Nyrsio Cymru, Sue Tranka, yn agor y digwyddiad.

Fe wnaethom ni ddatblygu hwn fel un o flaenoriaethau Cam 1 wrth gynhyrchu'r Cynllun Gweithlu ehangach. Nod y Cynllun Cadw Nyrsys yw cynorthwyo cadw nyrsys yn sefydliadau GIG Cymru. Ei fwriad yw i ategu a chryfhau'r gwaith presennol mewn llawer o sefydliadau ac fe'i ategir gan y canllaw cadw staff a'r offeryn hunanasesu.

Cafodd offeryn hunanasesu nyrsys ei ddatblygu ar y cyd â chydweithwyr nyrsio a'r gweithlu, i ddarparu gwerthusiad o'r prif feysydd sy'n effeithio ar gadw nyrsys. Bydd yr offeryn hunanasesu yn galluogi sefydliadau i nodi arferion da a meysydd i'w gwella. Bydd yr offeryn hwn yn cael ei ddatblygu ymhellach ar gyfer y gweithlu ehangach.

Darperir y canllaw cadw staff ar gyfer gweithlu ehangach y GIG, gan gynnig cymorth hanfodol i staff a rheolwyr, adnoddau a strategaethau i gadw staff yn well. Mae'r canllaw yn cyffwrdd â'r meysydd canlynol:

- rhaglenni mentora
- addysg barhaus
- amserlennu hyblyg
- cydnabyddiaeth a gwobrau
- rhaglenni lles
- cymorth yn y gweithle




Sganiwch i gyrchu'r adnoddau cadw staff



Pam mae cadw nyrsys yn bwysig

Nid mater o gadw nyrsys yn eu rolau yn unig yw cadw nyrsys. Mae'n hanfodol er mwyn sicrhau bod gennym system gofal iechyd iach a bywiog. Mae AaGIC wedi datblygu adnoddau i gynorthwyo cadw ein gweithlu nyrsio presennol ac yn y dyfodol, sydd wedi'u dilysu gan ein hymgysylltiad â nyrsys yn ystod Ein Sgwrs Fawr.



Cynhaliwyd yr ymgysylltiad ar ffurf dwy sgwrs ar-lein. Un a glywodd syniadau'r gweithlu nyrsio ar sut i ddenu a chadw pobl a mynd i'r afael â heriau presennol ac yn y dyfodol o ran darparu gofal nyrsio yng Nghymru. Yr ail oedd dilysu'r awgrymiadau a chasgliadau o'r sgwrs gyntaf. Roedd yn amlwg bod ein gweithlu nyrsio am gael ei werthfawrogi, ei ymddiried ynddo, ei ategu, ei gynorthwyo a'i ddatblygu. Roedd e' hefyd am fynd i'r afael â bylchau yn y gweithlu a phwysau gwasanaethau.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Nawr ein bod wedi cyflawni rhan hollbwysig o ddatblygiad y Cynllun Gweithlu Nyrsio Strategol sef clywed gan ein gweithlu, mae'n bryd symud y Cynllun yn ei flaen. Mae set o gamau gweithredu trawsnewidiol a blaengar yn cael eu datblygu i sicrhau ein bod yn sicrhau gweithlu nyrsio cynaliadwy, hapus ac iach yng Nghymru. Bydd ymgynghoriad ag ystod eang o randdeiliaid ar y camau gweithredu i sicrhau ein bod wedi nodi'r hyn sy'n gryf ac ar goll.

FO ddechrau 2024, bydd tîm y cynllun gweithlu nyrsio strategol yn mynychu nifer o fforymau. Bydd yn cynnal cyfres o weminarau ac yn casglu ymatebion trwy Ffurflen Microsoft ar-lein i sicrhau bod pawb wedi dweud eu dweud. Os hoffech gymryd rhan a chael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

HEIW.Nursing WorkforcePlan@wales.nhs.uk

Dilynwch ni



HEIW.NHS



@HEIW_NHS



Health Education and Improvement Wales



HEIW